**P-06-1437 Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Susan Jane Jones Davies ôl casglu 12,075 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Galwn ar Lywodraeth Cymru i dyfu gwariant ar sefydliadau sy'n diogelu treftadaeth a hanes Cymru - Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol - ac nid torri'r cyllid o 10.5 - 22.3%
Mae'r sefydliadau yma yn gwarchod gwaddol hanes a diwylliant ein cenedl, yn casglu, yn rhoi ar gadw, ac yn ei gyflwyno i bawb sy'n byw yng Nghymru. Maent hefyd yn gosod ffenest i'r byd o'n hanes unigryw.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
O ystyried bod buddsoddiad yn y sector o £1 yn dod â thwf o £5 i'r economi, nid yw'r arbedion o 0.02% i'r cyllideb cenedlaethol yn gwneud synnwyr.
Gyda thoriadau llym i gyllidebau ysgolion, a chymdeithas yng Nghymru yn wynebu heriau tlodi a diffygion mewn darpariaeth iechyd a gofal, mae cyn bwysiced ag erioed dal gafael ar ganolfannau sy'n cynnal a thyfu ein gwlad a'n cymunedau, gan ganiatau i'r cenedlaethau a ddaw adeiladu ar seiliau cadarn llwyddiannau'r gorffennol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru